Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Canllaw Rhieni/Gofalwyr i Gynadleddau Amddiffyn Plant

Mae fersiwn hawdd ei darllen/hygyrch ar gael trwy'r ddolen hon Taflen Cynhadledd Amddiffyn Plant Rhieni a Gofalwyr (Hawdd ei Darllen) - 11.10.22 (gwentsafeguarding.org.uk)

**Beth yw Cynhadledd Amddiffyn Plant?**

Mae Cynhadledd Amddiffyn Plant yn gyfarfod a gynhelir pan fo Gwasanaethau Plant yn poeni y gallai plentyn fod mewn perygl o niwed sylweddol. Byddwch yn ymwybodol bod ymholiadau wedi eu gwneud am ddiogelwch a lles eich plentyn. Yn dilyn yr ymholiadau hyn mae angen Cynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol yn awr. Pwrpas y daflen hon yw dweud wrthych beth fydd yn digwydd mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Mae'n gyfarfod i:

- Rhannu'r holl wybodaeth berthnasol.
- Gwneud penderfyniadau a yw eich plentyn mewn perygl o niwed.
- Penderfynu pa gamau sydd eu hangen i ddiogelu a hybu lles eich plentyn.
- Trafod pa gamau sydd angen eu cymryd i ddiogelu a hybu lles eich plentyn.

**Beth fydd yn digwydd cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant?**

Gofynnir i'r holl ymarferwyr sy'n ymwneud â'r Gynhadledd Amddiffyn Plant ysgrifennu adroddiad i'w rannu â chi 2 ddiwrnod cyn y Gynhadledd. Mae'n ofynnol i'r heddlu ddarparu gwybodaeth gan gynnwys unrhyw euogfarnau ar bob oedolyn arwyddocaol sydd wedi ymwneud â'r plentyn neu aelodau o'r teulu. Ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu cyn y Gynhadledd.

Byddwch yn cael cyfle cyn y Gynhadledd i siarad â'r Cadeirydd i rannu eich barn.

Lle mae eiriolwr yn gweithio gyda phlentyn/person ifanc, rhoddir ystyriaeth i rannu barn/adroddiad y plentyn/person ifanc yn y Gynhadledd, a phennir hyn gan y plentyn/person ifanc/Cadeirydd.

**Ble bydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant yn cael ei chynnal?**

Fel arfer cynhelir y gynhadledd yn eich swyddfa Gwasanaethau Plant leol, fodd bynnag, weithiau defnyddir lleoliadau eraill neu gall y cyfarfod hwn gael ei gynnal yn rhithwir. Byddwch yn cael manylion llawn am amser a lleoliad y cyfarfod gan eich Gweithiwr Cymdeithasol i ddechrau. Anfonir gwahoddiad atoch wedi hynny yn cadarnhau'r manylion.

**Pwy fydd yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant?**

Efallai na fyddwch yn adnabod pawb sy'n mynychu'r Gynhadledd Amddiffyn Plant. Efallai y bydd rhai ohonyn nhw yno oherwydd efallai eu bod yn gweithio gyda'ch teulu yn y dyfodol neu i roi cyngor arbenigol.

Gwahoddir eich plentyn os yw’n ddigon hen i ddeall beth sy’n digwydd. Gellir eu gwahodd i fynychu rhan o'r cyfarfod neu ofyn am eu barn ar wahân. Gall eiriolwr gyflwyno barn y plentyn/person ifanc.

Bydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant yn cael ei chadeirio gan Gadeirydd y Gynhadledd. Ni fyddant yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli eich achos.

Gall y bobl a wahoddir gynnwys:

- Chi a'ch plentyn (os yw'n briodol)
- Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn a/neu gynrychiolydd arall o’r Gwasanaethau Plant h.y., Rheolwr Tîm
- Cynrychiolydd iechyd
- Cynrychiolydd addysg
- Cynrychiolydd yr heddlu
- Cynrychiolydd prawf (os yw'n briodol)
- Cynrychiolydd tai
- Asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'ch sefyllfa, neu sydd â gwybodaeth amdani
- Aelodau eraill o'r teulu neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau rhiant
- Eiriolwr rhiant/plentyn
- Cyfieithydd ar y pryd os oes angen

Bydd cofnodwr yn bresennol hefyd.

**Alla i ddod â rhywun gyda mi?**

Gallwch ddod ag eiriolwr (mae hwn yn ffrind neu'n gefnogwr) a all eich helpu i gymryd rhan yn y Gynhadledd. Trafodir gwybodaeth bersonol amdanoch chi, eich plentyn ac aelodau eraill o'r teulu yn y Gynhadledd, felly meddyliwch yn ofalus am bwy rydych am ddod gyda chi.

Gallwch geisio cyngor cyfreithiol a gallwch ddod â chyfreithiwr i'r Gynhadledd; fodd bynnag, ni allant gyfrannu at drafodaeth na phenderfyniadau'r Gynhadledd.

**Beth os oes rhywun nad ydych chi eisiau iddynt fynychu?**

Trafodwch hyn gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol. P’un a yw’r pryder yn ymwneud ag aelod o’r teulu neu weithiwr proffesiynol, penderfyniad y Cadeirydd yn y pen draw yw a ddylai unigolyn fod yn bresennol ai peidio.

Mewn amgylchiadau eithriadol efallai na wahoddir rhiant neu ofalwr i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant. Dyma pryd y bydd y Cadeirydd yn penderfynu y bydd eu presenoldeb yn amharu ar y cyfarfod. Mewn achosion o'r fath gall y rhiant neu ofalwr roi eu barn mewn llythyr neu gais i gwrdd â'r Cadeirydd ar wahân.

**Pam ddylwn i fynychu/Beth os na allaf fod yn bresennol?**

Fel rhiant neu ofalwr, mae gennych chi rôl bwysig yn y cyfarfod, ac fe'ch anogir i fynychu.

Os ydych chi’n gweld y syniad o fynychu’r Gynhadledd yn rhy anodd neu os nad ydych chi’n dymuno mynychu siaradwch â Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn.

Os na fyddwch yn mynychu'r Gynhadledd, bydd cynrychiolydd o'r Gynhadledd yn cysylltu â chi i roi adborth ac i roi gwybod i chi am ganlyniad y Gynhadledd.

**Beth sy'n digwydd yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant?**

Ar ddechrau'r Gynhadledd gofynnir i bawb gyflwyno eu hunain ac esboniad o pam y bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn siarad am y pryderon sydd wedi arwain at gynnull y Gynhadledd Amddiffyn Plant.

Bydd adroddiad Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn yn cynnwys eich barn ar y pryderon sy’n cael eu codi am eich plentyn. Ceisir eich barn hefyd drwy gydol y Gynhadledd. Efallai y byddwch hefyd am ysgrifennu rhywbeth i'w rannu yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant.

Bydd pob cynrychiolydd proffesiynol yn cael cyfle i rannu eu hadroddiad yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant gan gynnwys cryfderau a risgiau.

Efallai y gofynnir i chi adael y Gynhadledd mewn rhai amgylchiadau.

Dywedwch wrth y Cadeirydd os ydych yn dymuno gadael y Gynhadledd am egwyl fer neu siarad yn gyfrinachol â'ch cyfreithiwr. Bydd y Gynhadledd fel arfer yn cymryd seibiant tra byddwch yn gwneud hyn.

Bydd y Cadeirydd wedyn yn crynhoi’r hyn sydd wedi’i ddweud cyn gofyn i bob gweithiwr proffesiynol yn y Gynhadledd a ydynt yn teimlo bod angen rhoi enw eich plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**Beth all y Gynhadledd Amddiffyn Plant ei benderfynu?**

Bydd yr ymarferwyr yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant yn penderfynu a yw eich plentyn mewn perygl parhaus o niwed ac angen cynllun amddiffyn gofal a chymorth.

Efallai y penderfynir nad oes angen cynllun amddiffyn gofal a chymorth ar eich plentyn gan nad oes risg o niwed parhaus, ond efallai y cewch gynnig cymorth o hyd.

### Beth fydd yn digwydd os rhoddir enw eich plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant?

Byddwch yn derbyn cofnodion y cyfarfod o fewn 20 diwrnod gwaith.

Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn gweithio gyda’ch teulu ac yn gweithredu’r cynllun amddiffyn gofal a chymorth y cytunwyd arno yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant. Bydd y cynllun amddiffyn gofal a chymorth yn cael ei ddyfeisio o fewn 10 diwrnod gwaith gan grŵp craidd o ymarferwyr.

Bydd y cynllun amddiffyn gofal a chymorth yn nodi’n glir beth sydd angen ei wneud, pwy ddylai ei wneud, ble y dylent ei wneud ac o fewn pa amserlen.

Pennir dyddiad i gael Cynhadledd arall i adolygu sut mae'r cynllun yn gweithio. Bydd yr adolygiad cyntaf o fewn 3 mis a phob 6 mis wedi hynny os bydd enw eich plentyn yn parhau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Bydd y cynllun amddiffyn gofal a chymorth yn cael ei fonitro gan ymarferwyr a chithau trwy gyfarfodydd grŵp craidd bob 4-6 wythnos.

### Beth fydd yn digwydd os NAD yw enw eich plentyn yn cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant?

Efallai na fydd unrhyw gamau pellach, neu efallai y gofynnir i chi barhau i weithio gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol ac eraill i wella pethau i'ch plentyn.

I wneud hyn, llunir cynllun amddiffyn gofal a chymorth i gefnogi eich teulu. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

### Pwy fydd yn gwybod a oes gan fy mhlentyn gynllun amddiffyn gofal a chymorth?

Mae cyfrinachedd yn bwysig iawn, a bydd Cadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant yn atgoffa pobl sy'n bresennol am hyn. Rydym yn cymryd gofal mawr i wneud yn siŵr mai dim ond y bobl hynny sydd angen gwybod sy'n cael y wybodaeth, fel y gallant eich helpu chi a'ch plentyn.

### Beth allwch chi ei wneud os ydych yn anhapus gyda phenderfyniad neu argymhellion y Gynhadledd Amddiffyn Plant?

Gallwch gwyno am y 3 rheswm hyn:

- Nid ydych yn meddwl bod y broses gywir wedi'i dilyn.
- Nid ydych yn cytuno â’r penderfyniad i roi plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu ei dynnu oddi ar y gofrestr, gan fod y broses a ddilynwyd wedi effeithio arno.
- Nid ydych yn cytuno â'r rheswm pam y cofrestrwyd y plentyn, gan fod y broses a ddilynwyd wedi effeithio arno. Gelwir hyn yn ‘gategori cofrestru’.

Os hoffech gwyno, trafodwch hyn gyda Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn.

## Eich Nodiadau

.....................................................................................................

.....................................................................................................

.....................................................................................................

.....................................................................................................

.....................................................................................................

.....................................................................................................

.....................................................................................................